

# Salm 23



Llyfrgell Sleidiau [cllic](#)

## GWEDDI

Mae d'eisiau di arnom, Arglwydd; mae d'eisiau di arnom nawr. Mae llawer o bethau y gallwn wneud hebddynt, ond hebot ti ni allwn fyw ac ni feiddiwn farw. Mae d'eisiau di yn yr oedfa hon. Bendithia ni â'th gwmni. Amen.

**EMYN 13** 'Wrth ddyfod, Iesu, ger dy fron'

**DARLLENIAD** Salm 23 (fersiwn Beibl William Morgan)

## GWEDDI

Arglwydd tynerwch, tyrd atom, a thawela ein gofidiau.

Dysg ni i ganfod y canol llonydd rwyf Ti yn ei gynnig yng nghanol stormydd oes.

Gostega'r stormydd oddi mewn i bob un ohonom.

Diolch am adeiladau a manau lle medrwn ymdawelu, a diolch am bobl arbennig sy'n dawelwyr stormydd bywyd.

Fe fydd yna adegau anodd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, fe fydd yna dreialon.

Arwain ni drwy'r anawsterau hynny, ac arwain ni mewn modd nad yw'n ein cynhyrfu. Os bydd yna dostrwydd, lleddfa pob dolur a nertha pob gofalwr yn ein cymdeithas. Dyro'r un heddwch i'r gofalwyr hynny sy'n gweithio'n ddygn mewn tawelwch ac mewn pryder yn aml.

Cadwa'r rhai sy'n gweithio yn y byd meddygol yn dawel eu meddwl ac yn hyderus eu hymarweddiad.

Gad i ni fod yn gymorth i eraill, gan ledaenu dy egwyddorion di o gariad a maddeuant ar draws ein byd gan ddechrau yn ein cymuned ein hunain.

Gofynnwn y cyfan hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen

**EMYN 554** 'Gorfoleddwn, Iesu mawr'

**ARWEINYDD**

'Yr Arglwydd yw fy mugail . . .'

'Daioni a thrugaredd a'm canlynant . . .'

O'r holl salmau, dyma'r anwylaf ohonynt i gyd. Bu hon yn oleuni mewn llawer nos, yn nerth mewn gwendid ac yn gysgod mewn llawer storm. Mae ei hiaith yn syml a'i darluniau'n gartrefol, ond mae dyfnder mawr ynnddi hefyd.

Gogoniant Salm 23 yw'r cyfuniad hapus a geir ynnddi o symlrwydd ymadrodd a dyfnder profiad.

Salm fechan yw hi – dim ond 6 adnod yw ei hyd – ond er mai salm fer yw hi, ffydd fawr a'i canodd. Mae naws y salm mor dawel â'r dyfroedd y dywed amdanynt, ac mor adfywiol â'r porfeydd gwelltog.

**Yr Arglwydd yw fy Mugail**

Dyna i chi berthynas.

**Ni bydd eisiau arnaf**

Dyna i chi gyflenwad.

**Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog**

Dyma orffwys.

**Efe a'm harwain gerllaw y dyfroedd tawel**

Dyma ymborth.

**Efe a ddychwel fy enaid**

Dyma Duw yn ein hadfer o'n pechod.

**Efe a'm harwain ar hyd lwybrau cyfiawnder**

Dyna i chi arweiniad.

**Er mwyn ei enw**

Dyna i chi bwrpas a chyfeiriad i ddyn.

**Ie, pe cerddwn ar hyd glyn cysgod angau**

Dyna i chi sialens.

**Nid ofnaf niwed**

Dyna i chi sicrwydd.

**Yr wyt ti gyda mi**

Dyna ffyddlondeb.

**Dy wialen a'th ffon a'm cysurant**

Dyna i chi gysgod, cysgod yr Arglwydd.

**Ti a arlwyi ford ger fy mron, yng ngŵydd fy ngwrthwynebwy**

Dyma obaith.

**Iraist fy mhen ag olew**

Cysegriad yw hwnna.

**Fy ffiol sydd lawn**

Dyna i chi ddigonedd.

**Daioni a thrugaredd yn ddiâu a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd**

Dyna i chi fendith Duw arnom.

**A mi a breswyliaf yn nhŷ'r Arglwydd**

Y sicrwydd terfynol am gysgod a chysur mewn lle gwell.

**Byth bythoedd**

Dyna dragwyddoldeb.

Ie, bendithion Duw ar ein cyfer mewn un salm.

Un darlun arbennig yn y salm yw'r darlun o'r Arglwydd yn fugail. Teimlo mae'r salmydd ei fod yn ymyl rhyw bresenoldeb mawr a charedig, ac na all roi gwell enw arno na Bugail.



Roedd y bugail gyda'i ddefaid trwy'r dydd, ac yn wir roedd e gyda nhw yn hwyr y nos hefyd. Dyma i chi un o'r adnodau mwyaf cofiadwy o ddrama'r geni:

'... ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes liw nos ac yn gwylid eu praidd.'

Ddydd a nos, roedd y bugail gyda hwy. Diau fod y salmydd yn ymwybodol o hynny wrth ganu'r salm.

Un cymal trawiadol i mi yw, 'Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant.'

Pobol sydd wedi derbyn ydym ni, pobol sydd wedi cael. O'i ddaioni fe roddodd Duw i ni i gyd. Y drwg yw na chofiwn am hyn ond ar wyl diolchgarwch, pan ddiolchwn am y pethau. Ie, yn yr oes hon, oes y pethau, hawdd yw diolch am y materol a'r hyn sydd gennym, gan anghofio diolch am y pethau pwysig a gawsom i gyd, wrth gael ein magu – cariad a sylfaen gadarn i adeiladu ein bywyd arni.

Mae trugaredd hefyd, medd y salm, yn ein canlyn ni. Trugaredd, term cyfarwydd. Beth yw ei ystyr?

Cyfieithiad y gair trugaredd yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru* yw 'mercy'. Yn yr *Oxford Dictionary*, ystyr 'mercy' yw:

'Compassion shown by one who is in power to another who has no claim to his kindness.'

Dangos cariad pan nad ydym yn haeddu hynny.  
Dyna yw trugaredd.

Ie, mae'n dda i ni gofio Salm y Bugail – a gawn ni gofio hefyd bod ei ddaioni a'i drugaredd Ef yn ein canlyn holl ddyddiau ein bywyd.

**EMYN 746** 'Dilynaf fy Mugail drwy f'oes'

## Y FENDITH

Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw;  
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnoch a bod yn drugarog wrthyh;  
bydded i'r Arglwydd edrych arnoch a rhoi i chwi heddwch, yn awr a hyd byth.  
Amen

(G.E.J.)